

# Rhestr Wirio Symud Allan

*Dilynwch y camau hyn i sicrhau eich bod yn gadael eich llety myfyrwyr heb ffwdan. Ticiwch ar ôl cwblhau fel nad ydych chi'n anghofio rhywbeth pwysig!*



Ydych chi wedi cofio...	Beth i'w wneud:	Cwblhawyd?
<b>Rhent</b> - Ydych chi wedi talu eich rhent i gyd?	Sicrhewch fod eich landlord wedi cael yr holl rent os nad ydych chi'n siŵr.	
<b>Tâl Sicrwydd/Blaendal</b> - Wyddoch chi beth yw eich rhif Blaendal a manylion lle mae wedi ei ddiogelu? Mae tri chynllun blaendal posibl.	Edrychwch ar eich contract tenantiaeth a'ch mewnlwch e-byst am fanylion. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich landlord neu cysylltwch â Gwasanaeth Blaendal eich Tenantiaeth.	
<b>Rhestr Offer</b> - Ydych chi wedi gwirio'r rhestr offer a gwblhaoch pan symudoch i mewn? Chwiliwch am ddifrod nad oedd yno pan gyrhaeddoch.	Gwiriwch y rhestr offer gyda'ch landlord. Trefnwch ddyddiad archwilio. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Diogelu Blaendal y Denantiaeth os oes anghytuno ynghylch y blaendal/tâl sicrwydd.	
<b>Glanhau</b> - Ydych chi wedi gadael yr eiddo mewn cyflwr glân?	Glanhewch yr holl ardaloedd yn drylwyr i sicrhau y cewch eich blaendal yn ôl. Rhannwch y dyletswyddau rhwng pawb sy'n byw yno. Edrychwch ar y rhestr i weld beth mae angen ei wneud.	
<b>Ailgylchu a Sbwriel</b> - Ydych chi wedi symud yr holl ailgylchu/gwastraff o'r eiddo a'ch gardd flaen a chefn?	Ewch i: <a href="https://www.cardiffdigs.co.uk/cy/gwastraff-ac-ailgylchu">https://www.cardiffdigs.co.uk/cy/gwastraff-ac-ailgylchu</a> i weld pryd mae eich diwrnod casglu neu lawrlwythwch ap "Cardiff Gov" i gael nodiadau hysbysu am ddim - bydd diwrnodau casglu yn aml yn newid adeg gwyliau'r banc. Rhowch yr ailgylchu/gwastraff ar y palmant y tu allan i'ch eiddo erbyn 6am ar y diwrnod casglu (ond nid cyn 4.30pm y prynhawn cynt).	
<b>Trwydded Deledu</b> - Ydych chi wedi dweud wrthyn nhw eich bod yn symud allan? Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys am ad-daliad rhannol!	Diweddarwch eich manylion ar <a href="http://www.tvlicensing.co.uk">www.tvlicensing.co.uk</a>	
<b>Post</b> - Ydych chi wedi newid eich cyfeiriad yn ôl i gyfeiriad eich cartref dros yr haf?	Cysylltwch â'ch meddyg, banc, cwmni ffôn symudol, ffrindiau, teulu, y DVLA, eich cyflogwr.	
<b>Allweddau</b> - Ydych chi wedi dychwelyd eich allweddau i'ch landlord/asiantaeth gosod tai?	Rhowch yr allweddau i'r landlord/asiantaeth gosod tai ar ddiwedd yr archwiliad symud allan.	
<b>Billiau</b> - Nwy, trydan a dŵr – Sicrhewch eich bod wedi talu'ch biliau.	Cymerwch ddarlleniadau o'r mesurydd a rhowch wybod i'r cwmnïau cyfleustodau pan fyddwch yn symud allan.	